# Llythyr templed at rieni a gofalwyr

Annwyl riant/gwarcheidwad,

Yn ddiweddar, mae pob ysgol yn y DU wedi derbyn gwybodaeth gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, yn codi ymwybyddiaeth o'r cynnydd diweddar o riportio blamel rhywiol ag ysgogiad ariannol (math o flacmel ar-lein a elwir yn aml yn y cyfryngau fel 'blacmel rhywiol' neu'n '*sextortion*'). Mae plant a phobl ifanc ledled y byd yn cael eu targedu.

Gyda'r math hwn o drosedd, mae troseddwr sy'n oedolyn (yn aml o grŵp troseddu cyfundrefnol sydd wedi'i leoli dramor) yn bygwth rhyddhau delweddau a/neu fideos noeth neu hanner noeth o'r plentyn neu berson ifanc, oni bai ei fod yn talu arian, neu'n gwneud rhywbeth ariannol arall, fel prynu cerdyn rhodd rhagdaledig.

Gall dioddefwyr o unrhyw oedran a rhywedd fod yn dargedau, fodd bynnag, mae cyfran fawr o achosion wedi cynnwys dioddefwyr gwrywaidd 14 i 18 oed.

Dydy'r plentyn neu berson ifanc byth ar fai os yw wedi dioddef hyn. Bydd troseddwyr wedi twyllo, wedi meithrin perthynas amhriodol a/neu wedi ei fanipwleiddio i rannu delwedd.

Gallwch ddysgu mwy am flacmel ar-lein ar wefan rhieni a gofalwyr CEOP Education.

## Siarad gyda'ch plentyn

Mae'n bwysig cael sgyrsiau aml, agored ac anfeirniadol gyda'ch plentyn am berthnasoedd, rhyw a bod ar-lein er mwyn meithrin ymddiriedaeth a'u cefnogi os aiff rhywbeth o'i le. Dylid cynnwys blacmel rhywiol ag ysgogiad ariannol yn y sgyrsiau hynny. Dyma rai awgrymiadau ar sut i fynd i'r afael â hyn:

- **Ewch ati i sgwrsio'n rheolaidd am eu bywyd ar-lein:** sgwrsiwch yn barhaus gyda nhw am eu bywyd a'u hamser ar-lein. Daliwch ati i gymryd diddordeb wrth iddyn nhw dyfu i fyny, archwiliwch apiau a gwefannau newydd gyda'ch gilydd a siaradwch mewn ffordd gytbwys, gan ystyried y manteision a'r niwed posibl. Darllenwch gyngor ar gael sgwrs gyda'ch plentyn.

- **Siaradwch am ble i ddod o hyd i wybodaeth am berthnasoedd a rhyw:** mae gan sefydliadau fel CEOP Education, Childline a Brook gyngor ar amrywiol byncIau sy'n briodol i'w hoedran fel cyfathrebu rhywiol a rhannu delweddau. Bydd yn helpu'ch plentyn i ddeall sut beth yw perthnasoedd afiach, sy’n cynnwys rhoi pwysau ar rywun a blacmel; ac yn cynnig ffynonellau gwybodaeth dibynadwy iddyn nhw ar y pynciau hyn.
- **Adolygwch osodiadau preifatrwydd:** siaradwch â'ch plentyn am bwysigrwydd defnyddio gosodiadau preifatrwydd ar eu cyfrifon i gyfyngu ar bwy all gysylltu â nhw. Darllenwch gyngor CEOP Education ar sut i siarad â'ch plentyn am eu gosodiadau preifatrwydd.
- **Gofalwch eu bod yn gwybod ble i droi am gefnogaeth:** rhowch wybod iddyn nhw y gallan nhw ddod atoch chi gydag unrhyw bryderon ac na fyddan nhw’n cael eu barnu. Mae hefyd yn bwysig eu gwneud yn ymwybodol o oedolion eraill y gellir ymddiried ynddyn nhw neu ffynonellau cymorth, os ydyn nhw’n teimlo na allan nhw siarad â chi, fel Childline.
- **Gwnewch yn siŵr eu bod yn gwybod ble i riportio digwyddiad:** atgoffwch eich plentyn sut y gallwch ei helpu i riportio digwyddiad i'r heddlu neu drwy ddefnyddio Canolfan Ddiogelwch CEOP. Cofiwch ddweud wrthyn nhw, os oes delweddau neu fideos noeth neu hanner noeth ohonyn nhw wedi'u rhannu heb eu caniatâd, y gallan nhw gymryd y 3 cham hyn i geisio eu tynnu:
    1. Defnyddio Report Remove, adnodd yr Internet Watch Foundation a Childline. Gall eich plentyn ei ddefnyddio i dynnu delweddau sydd wedi'u rhannu neu efallai wedi’u rhannu ar-lein.
    2. Defnyddio Take It Down, adnodd gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Plant Coll a Phlant sydd wedi dioddef Camfanteisio. Gall eich plentyn ei ddefnyddio i dynnu neu atal delweddau neu fideos rhag cael eu rhannu ar-lein.
    3. Riportio’n uniongyrchol i'r platfform neu'r ap perthnasol. Am gyngor ar sut i riportio i’r platfformau cyfryngau cymdeithasol mawr, cymerwch olwg ar y canllawiau ynghylch apiau i deuluoedd.

I ddysgu mwy am ba adnoddau sydd ar gael i'ch helpu i gefnogi'ch plentyn, ewch i UK Safer Internet Centre.

## Beth alla' i ei wneud os bydd hyn yn digwydd i 'mhlentyn i?

Os yw'ch plentyn yn dweud wrthych fod rhywun yn ceisio ei dwyllo, ei fygwth neu ei flacmelio ar-lein:

- **Peidiwch â thalu, stopiwch gysylltu a blociwch:** efallai y cewch eich temtio i dalu, ond does dim sicrwydd y bydd hyn yn atal y bygythiadau. Gan mai cymhelliad y troseddwr yw cael arian, unwaith y byddwch wedi dangos y gallwch dalu, mae'n debygol y bydd yn gofyn am fwy ac efallai y bydd y blacmelio'n parhau. Os ydych wedi talu, peidiwch â chynhyrfu ond peidiwch â thalu dim mwy. Helpwch eich plentyn i roi'r gorau i bob cyfathrebu â'r troseddwr ac ewch ati i'w flocio ar unrhyw gyfrifon y mae wedi'u defnyddio i gysylltu.
- **Peidiwch â dileu unrhyw beth:** ceisiwch beidio â dileu unrhyw beth y gellid ei ddefnyddio fel tystiolaeth fel negeseuon, delweddau a manylion cyfrif banc.
- **Rhowch wybod i'r heddlu neu'r CEOP:** ffoniwch 101 neu 999 os oes risg uniongyrchol o niwed i'ch plentyn. Neu gallwch ddefnyddio Canolfan Ddiogelwch CEOP i riportio unrhyw ymdrechion i flacmelio ar-lein.

Os yw eisoes wedi digwydd ac os yw'ch plentyn wedi rhannu delwedd ac wedi anfon arian at rywun sy'n ei ecsbloetio:

- **Rhowch sicrwydd iddyn nhw eu bod wedi gwneud y peth iawn yn dweud wrthych chi:** gofalwch eu bod yn gwybod nad nhw sydd ar fai am yr hyn sydd wedi digwydd a'u bod wedi gwneud y peth iawn i ofyn am eich help.

  Gall profiadau o ecsbloetio effeithio ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc; gallwch ddod o hyd i gyngor ar ofalu am iechyd meddwl eich plentyn gan y GIG.
- **Riportiwch y peth i'r heddlu neu'r CEO:** ffoniwch 101 neu 999 os oes risg uniongyrchol o niwed i'ch plentyn. Neu gallwch ddefnyddio Canolfan Ddiogelwch CEOP i riportio digwyddiad. Os yw eich plentyn yn 18 oed neu'n hŷn, ffoniwch 101 neu 999 os oes perygl o niwed ar unwaith.

- **Riportiwch unrhyw ddelweddau neu fideos sydd wedi'u rhannu:** helpwch eich plentyn i dynnu delweddau sydd ar-lein neu atal delweddau rhag cael eu rhannu ar-lein trwy ddilyn y tri cham hyn:
    1. Defnyddio Report Remove, adnodd yr Internet Watch Foundation a Childline. Gall eich plentyn ei ddefnyddio i dynnu delweddau sydd wedi'u rhannu neu efallai wedi'u rhannu ar-lein.
    2. Defnyddio Take It Down, adnodd gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Plant Coll a Phlant sydd wedi dioddef Camfanteisio. Gall eich plentyn ei ddefnyddio i dynnu neu atal delweddau neu fideos rhag cael eu rhannu ar-lein.
    3. Riportio'n uniongyrchol i'r platfform neu'r ap perthnasol. Am gyngor ar sut i riportio i'r platfformau cyfryngau cymdeithasol mawr, cymerwch olwg ar y canllawiau ynghylch apiau i deuluoedd.